| SWYDD-DDISGRIFIAD | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd** | Cymhorthydd Gofal – Gofal Preswyl |
| **Portffolio** | Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Yn atebol i'r:** | Rheolwr y Cartref |
| **Lleoliad** | |

**Diben y Swydd**

Mae gofal preswyl yn darparu amgylchedd diogel a chartrefol i bobl hŷn fyw yn dda, lle mae pwyslais ar reolaeth bersonol, dewis ac annibyniaeth.

Mae ein cynorthwywyr gofal preswyl yn cefnogi unigolion mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan gymryd amser i ddod i adnabod pobl, darparu gofal a chefnogaeth mewn ffordd sy'n sicrhau ein bod yn gwrando ar yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw.

**Prif Gyfrifoldebau**

1. Cynnig cymorth yn unol â Chynllun Gofal Unigol pob unigolyn, gan amlygu anghenion cyfnewidiol a diwallu anghenion gofal cymdeithasol, emosiynol a chorfforol a chymryd rhan mewn cynadleddau ac adolygiadau achos.

2. Cyflawni rôl y gweithiwr allweddol ar gyfer nifer fechan o bobl, gan ddod i adnabod eu hoff bethau, diddordebau a'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw.

3. Cadw cofnodion yn unol â Chanllawiau Cyngor Sir.

4. Cefnogi unigolion gyda holl agweddau o fywyd bob dydd gan gynnwys gofal personol (e.e. cymorth i ymolchi, rheoli ymataliaeth) gan sicrhau bod cefnogaeth yn cael ei ddarparu mewn ffordd ddiogel, sensitif a pharchus.

5. Cefnogaeth gyda diet, maetheg ac iechyd.

6. Cefnogi unigolion i fynegi eu dymuniadau a'u teimladau, i sicrhau bod ganddyn nhw gyfle i ddylanwadu ar ansawdd y gofal y maent yn ei dderbyn.

7. Cefnogi unigolion i gadw perthnasau yn y Cartref Preswyl, gyda'u teulu a'r gymuned ehangach i sicrhau eu bod yn cadw mewn cysylltiad gyda'r bobl allweddol yn eu bywydau.

8. Creu amgylchedd cefnogol lle mae rheolaeth bersonol ac annibyniaeth yn cael ei hyrwyddo i'r eithaf.

9. Cydymffurfio â Pholisïau a Gweithdrefnau'r Cyngor Sir a'r Canllawiau Arferion Gorau a chadw at Safonau Iechyd a Diogelwch personol ac yn y gweithlu.

10. Ymgymryd â hyfforddiant pan fo angen a chyfrannu at gyfarfodydd tîm a staff.

| **Goruchwylio/Rheoli Pobl** |
|---|
| Dim |
| **Gwiriadau Cyflogaeth / Gofynion Penodol, h.y. GDG** |
| Dim |
| **Amodau Gwaith Arbennig** |
| Dim |

| **Manylion am yr Unigolyn** | | |
|---|---|---|
| ***Mae'r manylion am yr unigolyn yn nodi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad a ystyrir yn angenrheidiol i gyflawni'r swydd, ac fe'u defnyddir wrth lunio rhestr fer ar y cam cyflwyno cais a'r cam cyfweld. Mae'n bwysig felly eich bod yn dangos yn eich cais sut rydych yn bodloni pob un o'r gofynion hanfodol.*** | | |
| **Cymwysterau Academaidd/Proffesiynol** | **Hanfodol / Dymunol** | **Sut bydd yn cael ei asesu?** |
| FfCCh Lefel 2 mewn Gofal neu ymrwymiad i gyflawni hyn. | Dymunol | Ffurflen Gais |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | | |
| Dealltwriaeth dda o anghenion pobl hŷn sy'n agored i niwed o ganlyniad i anableddau corfforol, amhariad synhwyraidd, problemau iechyd meddwl/dementia. | Hanfodol | Ffurflen Gais |
| Dealltwriaeth a sgil i ddatblygu perthnasau ac ymateb yn holistaidd i anghenion Preswylwyr. | Dymunol | Cyfweliad |
| **Sgiliau** | | |
| Sgiliau cadw cofnodion a chyfathrebu da. | Hanfodol | Ffurflen Gais |
| Y gallu i weithio yn wych mewn tîm. | Hanfodol | Cyfweliad |
| Ymrwymiad i ddilyn Polisi, Gweithdrefnau, a Chanllawiau Arfer Gorau'r Cyngor Sir. | Hanfodol | Cyfweliad |
| Ymrwymiad i ddarparu'r gofal uchaf posib o gefnogaeth i Breswylwyr. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Croesawu a chefnogi gofalwyr ac ymwelwyr eraill i'r Cartref. | Hanfodol | Cyfweliad |
| Agwedd hyblyg tuag at waith a'r gallu i ddysgu | Hanfodol | Cyfweliad |
| Yn gyfeillgar, yn gynnes, yn frwdfrydig ac yn sensitif i anghenion eraill. | Hanfodol | Cyfweliad |
| Gallu ymdopi ag amgylchiadau anodd a chydbwyso anghenion unigolyn a grŵp. | Hanfodol | Cyfweliad |
| Hunan gymhelliant a chymryd cyfrifoldeb personol i gyflawni'r dyletswyddau i'r safon angenrheidiol | Hanfodol | Cyfweliad |
| **Cymwyseddau Ymddygiad Craidd Cyngor Sir y Fflint** | **Hanfodol** | **Sut bydd yn cael ei asesu?** |

| | | |
|---|---|---|
| **Rhoi’r Cwsmer yn Gyntaf:**<br>Deall ein cwsmeriaid (mewnol ac allanol) a darparu gwasanaethau o ansawdd uchel i fodloni a rhagori ar eu disgwyliadau | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Gweithio’n Ddoethach:**<br>Bod yn glir o ran yr hyn y mae disgwyl i ni ei gyflawni yn ein gwaith a meddu ar y sgiliau, cymhelliant, brwdfrydedd ac ymrwymiad i weithio’n effeithiol | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Cydweithio / Gweithio mewn partneriaeth:**<br>Meithrin a chynnal perthnasau cadarnhaol er mwyn darparu gwasanaethau gwell ar gyfer ein cwsmeriaid a’n gweithwyr | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Cyfathrebu:**<br>Sicrhau ein bod yn deall ein gilydd, parchu ein gilydd, mynegi a rhannu syniadau a gwybodaeth yn glir | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Newid:**<br>Addasu i newid a chyflwyno gwell ffyrdd o wneud pethau trwy greu syniadau a chwilio am y ffordd orau o ddarparu ein gwasanaeth | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Arwain a Rheoli:**<br>Arwain a chymell eich hun ac eraill i wella perfformiad yn barhaus | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |